www.furthermaths.org.uk/wales		
Astudiaeth Achos	Eve Clune- Clarkson	
Cyfeiriad	**St. Martin's School** Hillside Caerffili CF83 1UW	

Asudiaeth Achos:

Myfyriwr – Eve Clune-Clarkson

Darpariaeth Mathemateg Bellach:

Nid yw Ysgol St Martin yn cynnig Mathemateg Bellach Lefel AS/A. Argymhellwyd i mi gymryd Mathemateg Bellach er mwyn gwneud cais i astudio Mathemateg yn y Brifysgol.

Ymunais â Rhaglen FMSP Cymru ym mis Medi 2015 yn fyfyriwr Blwyddyn 13. Penderfynais astudio ar gyfer Mathemateg Bellach cyfan lefel A mewn blwyddyn. Rwy'n gwybod bod hyn yn hwyr, ond wnes i ddim syrthio mewn cariad â Mathemateg nes i mi ddechrau fy astudiaethau AS.

Cefais gymysgedd o ddarpariaeth - ar-lein ac wyneb yn wyneb. Cymerodd addysgu ar-lein amser i ddod i arfer ag ond credaf ei fod yn wir yn baratoad da ar gyfer astudio yn y brifysgol. Mae'n rhaid i chi fod yn barod i weithio'n galed a bod yn fwy annibynnol. Bum hefyd yn mynd i lawer o sesiynau Sadwrn.

Manteision Astudio Mathemateg Bellach?

Dechreuais wneud Mathemateg Bellach i wneud cais am brifysgol, ond mis yn ddiweddarach daeth yn llawer mwy na dim ond am y rheswm yna.

Yr oedd yn ddiddorol iawn, roedd yn gwneud fy lefel A craidd gymaint yn haws. Po fwyaf y gwnewch fathemateg y mwyaf diddorol mae'n ymddangos. Gyda dulliau mwy haniaethol, gallwch deimlo eich ymennydd yn ymestyn wrth i chi fynd yn eich blaen.

Ceir mwy o ddysgu annibynnol, sydd yn baratoad da ar gyfer y brifysgol, pa bynnag gwrs y byddwch yn penderfynu ei wneud. Mae hyfforddiant ar-lein wedi bod yn her ac yn wahanol iawn i unrhyw ddull arall o ddysgu, ond cyn gynted ag y byddwch yn cael problem maent yn ateb yn gyflym iawn ac yn esbonio pethau yn fanwl iawn.

Byddwn yn wir yn argymell adolygu o'r dechrau a darllen o amgylch meysydd eraill o

fathemateg. Mae angen ymgolli'n llwyr i wella eich dealltwriaeth a chael gwybod pethau diddorol.

Roedd llwyth gwaith ychwanegol, ond nid ydych yn dechrau astudio Mathemateg Bellach oni bai eich bod yn mynd i fod yn barod i weithio'n galed. Credaf fod rhinweddau personol mor bwysig â gallu mathemategol. Mae'n rhaid i chi fod yn barod i weithio'n galed i gael y graddau uchaf a gallu ymdopi â'r straen. Roeddwn i'n arfer teimlo straen yn fwy pan oeddwn yn iau, ond erbyn hyn credaf mai gwastraff amser yw hynny, ac rwy'n bwrw ymlaen ag ef. Fy nghyngor mwyaf yw gwneud nodiadau adolygu cyn gynted ag y byddwch wedi cael eich gwers. Fyddwn i ddim wedi medru rheoli'r llwyth gwaith heb wneud hyn.

Rydw i mor falch i mi gymryd Mathemateg Bellach, gwnaeth i mi syrthio mewn cariad â Mathemateg. Cefais A mewn Mathemateg a Mathemateg Bellach Safon Uwch. Roeddwn ychydig yn siomedig i fethu A* mewn Mathemateg, ond rwy'n falch o gael dwy lefel A Mathemateg. Rwy'n mynd i Brifysgol Bryste i astudio Mathemateg (gydag astudiaeth ar gyfandir Ewrop). Fe wnes Ffrangeg Safon Uwch, ond fwy'n cymryd blwyddyn i ffwrdd i weithio yn Ffrainc cyn i mi ddechrau fy ngradd.

Mwynheais y flwyddyn er bu'n rhaid i mi weithio mor galed, roedd yn flwyddyn wych.